Gweiddi

## TASG 2

**(Estynnol, sbardun 2)**

Gwaith i unigolion

1. Beth yw ffurf y darn hwn?
    - a. dyddiadur
    - b. erthygl
    - c. hysbyseb
    - ch. cyfweliad

Rhowch resymau dros eich ateb.

____________________________________________________________

____________________________________________________________

2. Pa fath o arddull sydd i’r darn?
    - a. disgrifiadol
    - b. personol
    - c. ffeithiol
    - ch. anffurfiol

Nodwch enghreifftiau sy’n cyfiawnhau eich ateb.

____________________________________________________________

____________________________________________________________

3. Beth ydych chi’n meddwl sy’n poeni’r person ddywedodd,
   “Maes rocedi yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri! Bobl bach, beth nesaf!”

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

4. Ryw ddiwrnod, ydych chi'n meddwl y bydd …?
   "mynd am drip bach i'r orsaf gofod, neu hedfan o gwmpas y lleuad yn dod mor gyffredin â mynd i Lundain am y penwythnos."

Rhowch resymau dros eich ateb.

_______________________________________________________________

_______________________________________________________________

_______________________________________________________________

_______________________________________________________________

5. Darllenwch y darn isod a'i atalnodi'n gywir.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus am wyth or gloch neithiwr yn llanbedr i drafod y cynllun a daeth nifer o bobl yr ardal i fynegi eu barn am y maes rocedi hwn Dywedodd glenda jones llanbedr mae'r syniad yn un ardderchog. meddyliwch faint o bobl fydd yn dod ir ardal bydd rhai ohonyn nhw eisiau aros yma cyn saethu i ffwrdd ir gofod ac felly bydd tai bwyta a gwestair ardal yn gwneud ffortiwn roedd william evans, fferm y ddol yn anghytuno Ofnadwy meddai mae'r cynllun yn wirion bydd yn cael effaith ofnadwy ar fy fferm i ac ar holl ffermydd yr ardal bydd cyfarfod arall ar dachwedd 3ydd.